

WILLIAMS, DANIEL (1643? - 1716), diwinydd Presbyteraidd a chymwynaswr i Ymneilltiaeth

Enw: Daniel Williams
Dyddiad geni: 1643?
Dyddiad marw: 1716
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd Presbyteraidd a chymwynaswr i Ymneilltiaeth
Maes gweithgaredd: Crefydd; Dyngarwch
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Wrecsam neu ei chyffiniau, ni wyddys yn iawn pa bryd, nac enwau ei rieni, ond yr oedd ganddo chwaer, Elizabeth (a fu farw 1728) yn briod â lledrwr a thirfeddiannwr yn Wrecsam o'r enw Hugh Roberts. Ni wyddys chwaith ddim am gwrs ei addysg; yr oedd yn bregethwr rheolaidd cyn bod yn 19 oed. Y tu allan i Gymru y bwriodd y cwbl o'i yrfa - y mae'n anodd credu mai ef oedd y 'Daniel Williams' a gododd drwydded Presbyteraidd yn Wrecsam yn 1672 dan Oddefiad Siarl II; yn un peth, yr oedd yn Iwerddon yn y cyfnod hwnnw, a hefyd ni sonia [Philip Henry](#) ddim am y peth. Fe ellid efallai gredu bod Williams wedi codi'r drwydded pan oedd ar ymweliad â'r dre. Adroddir ei hanes yn fanwl gan Alexander Gordon yn y *D.N.B.* fel nad yw'n ofynnol yma ond rhoi braslun ohono. Gweinidogaethai yn Iwerddon o tua 1664 hyd 1687, pan symudodd i Lundain, yn weinidog Hand Alley, Bishopsgate, ac yn ddirprwy achlysurol dros Richard Baxter fel 'darlithydd' (pregethwr) yn Pinners' Hall. Pan fu farw Baxter (1691), cafodd y swydd honno, ond yn y storm a gododd o'i ymosodiadau ar uchel-Galfiniaeth Crisp a Chauncy, colodd hi. Un o ganlyniadau'r ffrwgd (a Williams bellach wedi sefydlu 'darlith' gyfochrog Salters' Hall) fu ymddatodiad yr 'Happy Union' a wnaethid yn 1690-1 rhwng y Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Ymosodwyd yn ffyrnig ar Williams am ei 'Arminiaeth' ('Baxteriaeth' oedd hi, mewn gwirionedd), ac yng ngwres y frwydr ceisiwyd hefyd bardduo'i gymeriad moesol - yn ofer. Tyfodd yn arweinydd cydnabyddedig (swyddogol, yn wir) y 'Tri Enwad' yn eu hymdriniaethau â'r wladwriaeth, ac ef oedd arweinydd eu hymweliadau ag Anne a Sior I, ar adeg dyfodiad y rheini i'r goron. Yn 1709, rhoes Edinburgh a Glasgow raddau D.D. iddo. Bu farw 26 Ionawr 1715/6 'yn 72 oed,' a chladdwyd yn Bunhill Fields. Dug ei ddwy briodas olud mawr iddo. Sgrifennodd lawer (rhestr o'i weithiau yn y *D.N.B.*); cyfieithwyd un o'i lyfrau, *The Vanity of Childhood and Youth*, 1691, yn Gymraeg - [Gwagedd Mebyd a Jeuenctid](#), 1759. At ei gilydd, ni adewir arnom yr argraff ei fod yn ddyn hoffus.

Yn ei ewyllys, gadawodd bron y cwbl o'i arian (tua £50,000) at achosion da. Ond yn herwydd diffygion ffurfiol yn yr ewyllys, aed i ymgyfreithio yn ei chylch, ac nid cyn 1721, ac wedi newid peth arni, y daeth allan o'r pair. Nodir yma dri pheth a ddaeth ohoni: (1) sefydlu saith o ysgolion elusennol yng Ngogledd Cymru, gyda darpariaeth at brentisio'r disgyblion wedyn - trowyd y rhain yn ysgolion 'Brutanaidd' tua 1850, ond pan ddaeth Deddf 1870, a roddai'r ysgolion elfennol ar y trethi, crynhowyd gwaddol ysgolion Daniel Williams i godi ysgol breswyl i ferched, yn Nolgellau, a elwir hyd heddiw 'Dr. Williams's School'; (2) sefydlu ysgoloriaethau i ddarparweinigion Ymneilltuol i fynd i Brifysgol Glasgow, ac ysgoloriaethau llai i fynd i academi Caerfyrddin; (3) sefydlu llyfrgell enwog y Dr. Williams yn Llundain - ond yn hyn o beth, datblygodd yr ymddiriedolwyr y cynllun ar raddfa lawer helaethach nag a amcenid gan Daniel Williams ei hunan.

Nid oedd Daniel Williams wedi anghofio Cymru, fel y dengys ei ewyllys - serch mai ei chwaer, Elizabeth Roberts, a fynnodd neilltuo peth o'r stad i dalu symiau blynyddol bychain (fe'u telir hyd heddiw) i weinidogion amryw o'r cynulleidfaoedd Ymneilltuol hynaf yn y Gogledd. Cadwai ei lygad ar Gymru, ac efe, yn 1690, a oedd yn gyfrifol am drefnu'r adroddiad ar Gymru i ddiben rhoi grantiau i'w gweinidogion allan o'r 'Common Fund' (gweler Gordon, *Freedom after Ejection*). Aeth llawer Cymro i Glasgow ar waddol Daniel Williams. Dylid nodi un canlyniad yng Nghymru o'r ffrae rhyngddo ef a'r uchel-Galfiniaid, sef hollti hen gynulleidfa enwog Wrecsam. Yn eu dicter at ymosodiadau [Thomas Edwards](#) o'r Rhual ar Daniel Williams, ymadawodd Presbyteriaid Wrecsam â'r gynulleidfa, a ffurfio'r 'New Meeting'; Daniel Williams a gododd d cwrdd iddynt yn Chester-Street, a gwaddolodd hwy yn ei ewyllys. A gellir ystyried 'dadl Henllan Amgoed' (gweler dan '[Owen, Jeremy](#)') yn ganlyniad arall.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

A. N. Palmer, *A history of the older nonconformity of Wrexham and its neighbourhood being the third part of 'A history of the town and parish of Wrexham'* (1888)

ymdriniaeth lawn a'i ewyllys yn W. D. Jeremy, *The Presbyterian Fund and Dr. Williams' Trust* (1885), 81-94

Y Cofiadur, 1957, 35

Gweithiau

Daniel Williams, Thomas Baddy (cyf.), *Gwagedd mebyd a jeungctid: yn yr hwn y dangosir natur lygredig pobl jeuaingc, ac y cynhygir moddion er eu diwygiad* (Caerlleon 1728?)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [46801130](#)

Wikidata: [Q5219099](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

